# Y Tîm Nam ar y Golwg

**Beth y gallwch ei ddisgwyl o'r maes gwasanaeth hwn?**

- Cyngor, canllawiau a HMS gan Athrawon Cymwysedig Disgyblion â Nam ar eu Golwg (QTVI) ar sail anghenion unigol.
- Cydweithio â'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY), athrawon dosbarth ac uwch dimau rheoli.
- Cynorthwyo ac uwchsgilio staff a meithrin gallu i sicrhau dysgu o safon ac i alluogi plant a phobl ifanc i fanteisio ar y cwricwlwm a'r dysgu.
- Cyngor i athrawon dosbarth ynghylch gwahaniaethu ac addasu deunyddiau.
- Cynnal asesiadau ac archwiliadau amgylcheddol gyda Swyddog Iechyd a Diogelwch yr ysgol a Swyddog Mynediad Pen-y-bont ar Ogwr i alluogi ysgolion i ddiwallu anghenion mynediad plant a phobl ifanc.
- Gwasanaeth allgymorth a bennir drwy ddefnyddio'r fframwaith cymhwysedd NATSIP.
- Cynhelir asesiad parhaus o olwg gweithredol y disgybl.
- Cymorth pan fydd y disgybl yn symud ysgol gan weithio'n agos gyda'r ysgol newydd a threfnu ymweliadau ychwanegol.
- Asesiadau unigol a hyfforddiant gan arbenigwr symudedd.
- Trefniadau arbennig – gallai gynnwys cymorth yn y dosbarth, darparu cyfarpar Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) arbenigol, hyfforddiant symudedd a sgiliau cyfeiriadaeth, darparu fformatau testun addas; diagramau cyffyrddol neu Braille.

**Sut i fanteisio ar ein harbenigedd**

- Bydd y tîm Nam ar y Golwg yn gwybod am y mwyafrif o'r plant a'r bobl ifanc gan y byddant wedi cael diagnosis gan weithwyr iechyd proffesiynol. Weithiau, bydd y rhieni neu'r ysgol yn atgyfeirio'r plenty.
- Gallwch gysylltu â'n Hathrawon Cymwysedig Disgyblion â Nam ar eu Golwg drwy'r e-bost neu dros y ffôn.
- Mae angen cydsyniad rhieni cyn gofyn am gymorth gan y Tîm.
- Cyn gynted ag y bydd y Tîm yn cael yr atgyfeiriad a chydsyniad y rhieni, bydd un o'r Athrawon Cymwysedig Disgyblion Nam ar y Golwg yn cysylltu â'r ysgol.

- Mae'n bwysig bod Iechyd, Offthalmolegwr Ymgynghorol, y teulu a'r ysgol yn cydweithio er mwyn cael y cyngor a'r cymorth gorau.
- Gellir atgyfeirio'r disgybl at y panel meddygol cymhleth am gymorth ategol. Os caniateir hyn, bydd y tîm Nam ar y Golwg yn monitro'r cymorth ategol.
- Bydd Athrawon Cymwysedig Disgyblion Nam ar y Golwg ar gael i gwrdd â rhieni a'r ysgol.
- Mae cyfarfodydd adolygu cynnydd yn gyfle i'r holl weithwyr proffesiynol a'r teuluoedd gynllunio gyda'i gilydd.
- Os yw disgybl wedi dechrau colli ei olwg yn hwyr, gall ysgolion gysylltu â'r Athrawon Cymwysedig Disgyblion Nam ar y Golwg i ofyn am gyngor.
- Mae gan y Tîm Nam ar y Golwg gysylltiadau â Chynllun Golwg Gwan Cymru a all ddarparu Cymhorthion Golwg Gwan.